**Canllawiau S4C ar y defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) wrth greu a chyfleu cynnwys**

***Adran A: Cyflwyniad***

1. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r defnydd o AI wrth greu a chyfleu cynnwys - gan gynhyrchwyr annibynnol yn bennaf, ond hefyd i staff mewnol S4C (er enghraifft wrth greu promos neu gynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol ac mewn newyddion digidol). Mae gan S4C bolisïau ar wahân sy'n ymdrin â'r defnydd o AI gan staff S4C lle nad yw'n ymwneud â'r broses o greu cynnwys, yn ogystal ag wrth recriwtio.

2. Drwy gymal 1.6 Telerau Cyffredinol S4C mae'r polisi hwn, gan gynnwys unrhyw ddiwygiadau iddo, wedi'i ymgorffori ym mhob trwydded.

3. Yn gyffredinol mae S4C yn croesawu datblygiadau ym maes AI, ac yn gweld sut all AI ein cynorthwyo i weithio'n fwy effeithlon ac i hybu creadigrwydd. Fodd bynnag, sylweddolwn yn ogystal bod yna risgiau ac anfanteision posib. Rhaid i ni felly'i ddefnyddio mewn ffordd gyfrifol. Mae angen i ni daro cydbwysedd fel bod modd buddio o AI wrth sicrhau bod unrhyw ddefnydd ohono yn ddiogel ac yn gydwybodol.

4. Mae'n amhosib, gan fod AI mor eang ac yn datblygu mor gyflym, a gan fod cymaint yn anhysbys o hyd yn ei gylch, i fod yn rhagnodol ynghylch ei ddefnydd.

5. O'r herwydd, bwriad y polisi hwn – yn unol â darlledwyr cyhoeddus eraill – yw gosod fframwaith.

***Adran B: Y rheol sylfaenol***

6. Yn syml iawn, mae S4C yn caniatáu'r defnydd o AI gan gwmnïau cynhyrchu wrth greu a darparu cynnwys i ni ar ddau rag-amod clir:

    a. **Yn gyntaf, rhaid** i'r defnydd bwriedig ddigoni **pob un** o'r egwyddorion isod.

    b. **Yn ail, rhaid** derbyn caniatâd ysgrifenedig gan y Comisiynydd perthnasol cyn defnyddio AI yn y sefyllfaoedd sy'n cael eu nodi yn adran Ch isod. Er mwyn sicrhau bod y caniatâd hwnnw'n wybodus, rhaid darparu gwybodaeth ysgrifenedig llawn i'r Comisiynydd mewn da bryd o flaen llaw. Ni ddylid mynd i broses Ar-lein heb fod y drafodaeth wedi digwydd a'r defnydd wedi'i gymeradwyo. Dylid esbonio'n glir yn y cais pam y tybir fod y defnydd yn digoni'r egwyddorion perthnasol.

***Adran C: egwyddorion AI S4C***

*Egwyddor C1:* Cenhadaeth a Gwerthoedd S4C

7. Rhaid i'r defnydd fod yn gyson â chenhadaeth a gwerthoedd S4C. Ni all beryglu'n enw da, a rhaid iddo gynnal ymddiriedaeth y gynulleidfa. Gan hynny, rhaid iddo gydymffurfio â gofynion Ofcom a'n canllawiau a pholisïau cynhyrchu.

*Egwyddor C2:* Creadigrwydd

8. Rhaid i'r defnydd gefnogi creadigrwydd dynol, ond ni all ei ddisodli. Dim ond os yw'r defnydd o AI yn cynnig gwerth ychwanegol y gellir ei ddefnyddio.

*Egwyddor C3:* Tryloywder ac osgoi camarwain

9. Rhaid i S4C a'r gynulleidfa fod yn ymwybodol o unrhyw ddefnydd o AI mewn cynnwys ffeithiol neu faterion cyfoes, gan gynnwys wrth gasglu data. Dylid hysbysu'r gynulleidfa yn gydamserol, un ai ar lafar neu drwy hysbysiad ysgrifenedig ar sgrin – yr union ddull i'w gytuno yn ystod y trafodaethau gyda'r Comisiynydd.

*Egwyddor C4:* Cynhwysiant

10. Rhaid sicrhau nad yw'r defnydd o AI yn arwain at wneud penderfyniadau sy'n dangos tuedd tuag at unrhyw berson neu grŵp o bobl (gweler amrywiaeth a chynhwysiant ).

*Egwyddor C5:* Diogelwch a chaniatâd

11. Rhaid sicrhau bod unrhyw wybodaeth sy'n cael ei ddefnyddio neu ei rannu gan blatfformau/offerynnau AI yn cael ei gadw'n ddiogel.

12. Rhaid sicrhau nad yw data personol yn cael ei ddefnyddio heb ganiatâd penodol.

*Egwyddor C6:* Parchu eiddo deallusol

13. Ni cheir defnyddio eiddo deallusol unrhyw un arall fel 'prompt'. Ni ddylech ddefnyddio unrhyw blatfform sydd â modelau hyfforddi annibynadwy neu y gwyddys eu bod wedi defnyddio deunydd hawlfraint heb ganiatâd. Rhaid i chi wneud pob ymdrech rhesymol i sicrhau nad yw unrhyw ddeunydd allbwn yn torri unrhyw gyfreithiau hawlfraint.

*Egwyddor C7:* Atebolrwydd

14. Rhaid cadw cofnod clir o'r defnydd o AI a'r broses a ddilynir wrth ei ddefnyddio i greu cynnwys gan ddefnyddio'r daenlen yma. Rhaid cwblhau a chyflwyno'r daenlen i S4C ar-lein dim hwyrach na'r dyddiad cyfleu.

*Egwyddor C8:* Goruchwyliaeth Ddynol a chywirdeb

15. Rhaid gwirio unrhyw allbwn sydd yn cael ei greu gan AI, a chymhwyso'r un egwyddorion o gydymffurfiaeth ac uniondeb y byddwn yn gwneud ar gyfer unrhyw ddarn o waith arall. Ni ddylech ddibynnu'n llwyr ar AI ar gyfer unrhyw gam yn eich proses.

***Adran Ch: caniatâd.***

16. Gan nad oes diffiniad cyflawn o AI, a chan gofio bod elfennau o'r hyn sydd nawr yn cael ei adnabod fel AI (er enghraifft 'effeithiau arbennig') wedi bod mewn defnydd cyffredinol ers amser, mae S4C yn:

    a. awyddus i osgoi ffocysu'n ormodol ar *beth* yn union yw AI a chanolbwyntio yn lle hynny ar y math o dasgau y'i defnyddir ar eu cyfer, ac ym mha gyd-destun;

    b. cydnabod yr angen i fod yn gymesur.

17. Safbwynt S4C yw bod yna ddau gategori o ddefnydd fel a ganlyn.

18. Yn amodol ar ddigoni'r egwyddorion yn adran C uchod, ni fydd S4C yn disgwyl i gynhyrchwyr ofyn am ganiatâd yn y sefyllfaoedd canlynol ("y Categori Cyntaf"):

    a. cynhyrchedd personol rhesymol e.e. trawsgrifio, crynhoi.

    b. gwaith datblygu lefel uchel – e.e. ymchwil; bwrdd naws; dec cyflwyno

    c. ôl olygu er mwyn tacluso, blyrio (neu wneud yn fwy eglur) neu wella ansawdd lle nad yw'n golygu creu unrhyw gynnwys o'r newydd, nac yn newid cyfraniad unigolyn mewn ffordd nad ydynt yn hapus ag ef (neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt wrthwynebu).

    d. ôl-olygu arall mewn cynnwys nad yw'n gynnwys ffeithiol neu faterion cyfoes e.e. VFX; ail-greu; ychwanegu delweddau.

19. Ni ddylid defnyddio AI heb ganiatâd ysgrifenedig y Comisiynydd perthnasol yn y sefyllfaoedd canlynol ("yr Ail Gategori"):

    a. mewn cynnwys ffeithiol neu faterion cyfoes i greu unrhyw beth ar sgrin, boed yn weledol neu'n glywedol, sydd ddim yn bodoli neu ddim wedi bodoli mewn gwirionedd.

    b. i greu unrhyw ddeunydd, boed yn weledol neu'n glywedol, sy'n elfennau hanfodol o unrhyw gynhyrchiad (a hynny p'un ai o'r newydd neu fel ychwanegiad) – e.e. cymeriadau; lleisiau; lleoliadau; pwyntiau cyfeirnod allweddol.

    c. os yw'r AI yn gwneud unrhyw beth y byddai cyflwynwyr, actorion, awduron neu gerddorion yn arferol yn ei wneud fel arall, neu unrhyw beth sydd yn gwneud newid o sylwedd i'w perfformiad neu ymddangosiad. Bydd angen cyfiawnhad clir a phenodol am unrhyw ddefnydd o'r fath sy'n dangos gwerth ychwanegol.

d. lle mae unrhyw ddeunydd neu wybodaeth sy'n berchen i eraill, neu unrhyw ddata personol, wedi'i fewnbynnu i hyfforddi'r AI neu ei ddefnyddio fel prompt.

20. Cyn rhoi'r caniatâd fe fydd y Comisiynydd yn gwirio'r defnydd bwriedig gyda'r Prif Swyddog Cynnwys a Phennaeth Cyfreithiol a Busnes S4C. Bydd y Comisiynydd yn copïo'r Prif Swyddog Cynnwys a'r Pennaeth Cyfreithiol a Busnes wrth ddarparu'r caniatâd.

21. Os oes gennych unrhyw gwestiwn am ddefnydd o AI yng nghyd-destun comisiynau S4C cysylltwch drwy cyfreithiol_legal@s4c.cymru.

22. Oherwydd datblygiadau cyson mewn AI bydd S4C yn adolygu'r polisi hwn o leiaf unwaith bob blwyddyn.

**S4C**

Fersiwn 1: Mawrth 2026